SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Adroddiad blynyddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

2022 i 2023



Darllen Hawdd


# Darllen Hawdd



Mae hwn yn fersiwn Darllen Hawdd hefo rhywfaint o wybodaeth. Efallai na fydd yn cynnwys y wybodaeth i gyd, ond bydd yn dweud wrthych chi am y rhannau pwysig.




Mae'r llyfryn Darllen Hawdd hwn yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai byddwch dal angen help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn **llythrennau trwm** – mae hyn yn meddwl fod yr ysgrifennu'n fwy trwchus a thywyll.




Dyma eiriau y bydd rhai pobl yn eu ffindio'n anodd. Pan 'da chi'n gweld gair mewn print trwm, fe wnawn ni ei egluro yn y frawddeg nesaf.




Mae geiriau glas a llinell oddi tanynt yn dangos dolenni at wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch glicio ar y dolenni yma ar gyfrifiadur.

# Yr hyn sydd yn y llyfryn hwn

Am yr adroddiad hwn....4

Trosedd rhwng 2022 a 2023....5

Ein gwaith rhwng 2022 a 2023....7

Y Cynllun Heddlu a Throsedd....12

Dewch i wybod mwy....19

# Am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn egluro'r hyn sydd wedi cael ei wneud gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.



Enw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ydy Andy Dunbobbin.


Bydd yr adroddiad hwn yn dweud wrthych chi am:



- Trosedd rhwng 2022 a 2023.



- Ein gwaith rhwng 2022 a 2023.




- Y Cynllun Heddlu a Throsedd.

# Trosedd rhwng 2022 a 2023




Yn y flwyddyn ddiwethaf:

- Fe wnaeth 106,849 o bobl ffonio 999 yng Ngogledd Cymru.



- Gwnaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru arestio 17,616 o bobl.




- Roedd llai o drosedd na'r flwyddyn cynt, gan gynnwys llai o:



  - Trais yn erbyn merched a genethod.



  - **Troseddau casineb.**

  **Troseddau casineb** ydy pan mae rhywun yn cael eu haflonyddu neu eu brifo oherwydd eu bod yn wahanol mewn rhyw ffordd.

- Roedd hefyd llai o:
    - **Stelcio** ac **aflonyddu.**



**Stelcio** ydy pan mae rhywun yn dal i ddilyn, gwylio neu gysylltu hefo person arall heb i'r un arall gytuno.



**Aflonyddu** ydy pan mae rhywun yn dal i wneud neu ddweud rhywbeth sy'n gwneud i berson arall deimlo ofn neu ddim yn saff.

# Ein gwaith rhwng 2022 a 2023

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi:



- Dechrau ein Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu – dyma ein cynllun ni o ran sut y gwnawn gysylltu hefo aelodau o'r cyhoedd.




- Cyflogi 206 o swyddogion heddlu newydd.



- Gofyn am lawer o arian ac wedi'i gael er mwyn ei wario ar wahanol brosiectau.




- Sefydlu gwefan newydd y gall pawb ei defnyddio.


Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm hefyd wedi:




- Dechrau cylchlythyr sy'n cael ei rannu'n Gymraeg a Saesneg.




- Dechrau prosiect newydd lle mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu archebu lle i ddod a siarad hefo ni am faterion heddlu.




- Rhannu ein Strategaeth Cyfathrebu Cefn Gwlad – dyma ein cynllun ni am sut y gwnawn ni gadw ardaloedd cefn gwlad yn saff.




- Cymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau lle 'da ni wedi cael y cyfle i siarad gyda aelodau o'r cyhoedd.





- Gwario arian ar ein prosiect Strydoedd Diogelach.

# Prosiect Strydoedd Diogelach





Mae ein prosiect Strydoedd Diogelach am wneud y strydoedd mewn ardaloedd lleol yn saff.

Yn y flwyddyn ddiwethaf yng Nghaergybi 'da ni wedi:




- Gwella golau stryd yng nghanol y dref.




- Gosod 21 o gamerâu CCC newydd.




- Gwneud yn siŵr fod tacsis yn ddiogel i ferched a genethod eu defnyddio nhw.




- Helpu pobl ifanc.




Yn y flwyddyn ddiwethaf yng Nghaergybi 'da ni hefyd wedi sefydlu **Hafanau Diogel.**

**Hafanau Diogel** ydy gwasanaeth sy'n cefnogi pobl sy'n cael argyfwng iechyd meddwl.

Yn y flwyddyn ddiwethaf yn Sir y Fflint fe wnaethon ni:




- Sefydlu technoleg CCC newydd.



- Gwella'r tir, fel gwneud strydoedd edrych yn neisiach.



- Cynnig mwy o hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn darparu gofal iechyd a chymdeithasol i bobl yn eu cartrefi.




- Sefydlu ffordd newydd a diogel i bobl mewn cymunedau lleol siarad hefo'i gilydd am drosedd a gwaith yr heddlu.


Yn y flwyddyn ddiwethaf yn Wrecsam fe wnaethon ni:



- Dechrau 5 prosiect newydd sy'n gweithio er mwyn helpu pobl ifanc sy'n camymddwyn.




- Rhannu gwybodaeth am drais yn erbyn merched a genethod.



- Sefydlu Hafan y Dref – mae hwn yn fan diogel lle gall pobl sydd hefo problemau alcohol neu gyffuriau fynd am help.



- Cyflogi Marsialiaid Stryd ar gyfer canol y dref - mae nhw yn bobl sy'n cadw llygad am drosedd yng nghanol trefi.



- Darparu beiciau trydan i dimau heddlu lleol.

# Y Cynllun Heddlu a Throsedd




Dwi wedi ysgrifennu cynllun 3 blynedd i'r heddlu yng Ngogledd Cymru.


Ei enw ydy'r Cynllun Heddlu a Throsedd.




Mae gan y Cynllun Heddlu a Throsedd 3 prif **blaenoriaeth** ar gyfer yr heddlu.

**Blaenoriaethau** ydy'r pethau pwysicaf y dylen ni weithio arnyn nhw gyntaf.

Y 3 prif flaenoriaeth ydy:




1. Gwneud yn siŵr fod ardaloedd lleol yn saffach.



2. Helpu **dioddefwyr** a phobl leol.

   **Dioddefwr** ydy rhywun sydd wedi cael eu brifo gan drosedd.




3. Gwneud yn siŵr fod y **system cyfiawnder troseddol** yn deg.

   Y **system cyfiawnder troseddol** ydy'r holl sefydliadau gwahanol sy'n gysylltiedig hefo delio hefo pobl sydd wedi torri'r gyfraith.

## Blaenoriaeth 1 – Gwneud yn siŵr fod ardaloedd lleol yn saffach.

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 1 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni wedi:




- Edrych ar y Ddeddf Hela a gwneud cynllun sut y gwnawn ddelio hefo hela.




- Cael llawer o ddigwyddiadau hefo grwpiau o bobl sy'n byw yng nghefn gwlad.

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 1 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni hefyd wedi:

- Gweithio hefo BRAKE – mae BRAKE yn elusen diogelwch ffyrdd.



- Gwario arian ar wasanaeth newydd a fydd yn rhoi cymorth i bobl sydd wedi bod mewn damweiniau car difrifol.




- Gweithio hefo cynghorwyr lleol er mwyn gwneud ffyrdd yn saffach yn yr ardal maen nhw'n gofalu amdani.



- Wedi helpu **ymgyrchoedd** diogelwch y ffordd.

  **Ymgyrch** ydy pan mae grŵp o bobl yn gweithio hefo'i gilydd er mwyn trio newid rhywbeth.



- Wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau diogelwch ffyrdd.

# Blaenoriaeth 2 – Helpu dioddefwyr a phobl leol

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 2 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni wedi:



- Edrych ar sut mae'r heddlu'n delio hefo troseddau casineb sydd wedi cael eu riportio.




- Sefydlu digwyddiad ar-lein ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb.




- Edrych ar sut mae'r heddlu'n delio hefo troseddau difrifol.



- Wedi cymryd rhan mewn edrych os ydy'r heddlu'n cefnogi pob grŵp gwahanol o bobl.

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 2 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni hefyd wedi:




- Helpu'r heddlu ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd sy'n egluro sut mae'r heddlu'n cynnwys grwpiau gwahanol o bobl yn eu gwaith.



- Helpu gwaith sy'n gwella bywydau plant sy'n byw mewn gofal.




- Gwario arian ar Get Safe Online – mae'r gwasanaeth cymorth hwn yn helpu pobl gadw'n saff ar-lein.





- Gweithio hefo sefydliadau eraill er mwyn lleihau trais difrifol a **cham-drin domestig.**



**Cam-drin domestig** ydy pan rydych yn cael eich brifo gan aelod o'r teulu neu rywun sy'n byw gyda chi.

# Blaenoriaeth 3 – Gwneud yn siŵr fod y system cyfiawnder troseddol yn deg

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 3 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni wedi:



- Parhau rhoi arian i brosiect a wnaiff ddysgu plant a phobl ifanc am drosedd.




- Gweithio hefo dioddefwyr trosedd a gofyn iddyn nhw beth fuasen nhw'n hoffi wella.



- Wedi helpu gwaith **cyfiawnder adferol**.

  **Cyfiawnder Adferol** ydy pan mae dioddefwr trosedd a'r troseddwr yn siarad hefo'i gilydd am beth sydd wedi digwydd..

Er mwyn gweithio tuag at flaenoriaeth 3 yn y flwyddyn ddiwethaf, 'da ni hefyd wedi:



- Edrych sut allwn ni helpu merched sy'n torri'r gyfraith.



- Edrych a gweithio ar helpu pobl ifanc a phlant.

- Helpu gwaith Checkpoint Cymru – mae hwn yn wasanaeth sy'n helpu oedolion sydd wedi gwneud troseddau llai difrifol.

# Dewch i wybod mwy




Gallwch chi edrych ar ein gwefan yma:
[www.northwales-pcc.gov.uk](http://www.northwales-pcc.gov.uk)

Cafodd y llyfryn Darllen Hawdd hwn ei greu gan [easy-read-online.co.uk](http://easy-read-online.co.uk)
Mae'r llyfryn yn cynnwys lluniau trwyddedig gan Photosymbols a Shutterstock.